



Llun: Amelia Davies

Er yr heintiad a'i gadwyn – er ei frath
Drwy'r fro, er ei wenwyn,
O raid daw'r defaid a'u hŵyn,
A gwenu mae y Gwanwyn.

Gareth Owen

Gair gan y Gweinidog

Pwy sy'n cofio Ben Gunn, un o gymeriadau dychmygol Robert Louis Stevenson yn ei nofel *Treasure Island*? Gŵr a adawyd ar ynys am dair blynedd a'i ymddangosiad gwyllt yn adlewyrchu natur unigryw ei fywyd. Fe allaf eich sicrhau nad ydi hi cynddrwg â hynny, ond mae'r gwallt yn tyfu ac wrth i mi ysgrifennu'r ychydig eiriau hyn mae Amazon newydd fy hysbysu fod y 'Professional Hair Clippers, Hair Cutting Machine for Men', newydd ei ddisbarthu! Ond roedd yna rywbeth arall hefyd am Ben Gunn, sef ei fod wedi magu awch am gaws! 'Does yna ddim prinder caws ond fe fyddai'n wir dweud mai dyma sy'n digwydd dan amgylchiadau o'r fath, bod rhywun yn dyheu am bethau cyffredin bywyd. Pethau y mae rhywun yn eu cymryd yn ganiataol – rhywbeth mor syml â phaned o goffi mewn caffi a medru ymlacio am ychydig funudau mewn awyrgylch gwahanol.

Ond mae yna rywbeth mwy na jyst paned o goffi hefyd, sef y dyhead am gwmniaeth. Ychydig ddyddiau'n ôl fe ganodd y ffôn a'r llais yr ochr arall yn dweud 'Blast from the past! Guess who's here?' Heb fanylu, hen ffrind coleg nad oeddwn wedi ei weld na chlywed ganddo ers blynnyddoedd ac un o blith y naw a ordeiniwyd yn 1992. Un sâl ydw i am gadw cysylltiad a byddaf yn cywilyddio weithiau wrth feddwl am y llythyrau a'r e-byst sy'n aros i gael eu hateb, ond diolch am amynedd a graslonrwydd unigolion. Ie 'Blast from the past!' a diolch am y 'blast' hwnnw oherwydd fe gafwyd cyfle i ddal i fyny a hel atgofion ond yn fwy na hynny, sylweddoli bod cyfeillgarwch cywir yn rhywbeth sy'n aros. Yn rhyfedd iawn, ymhen ychydig ddyddiau daeth neges-destun a hynny gan gyd-fyfyriwr arall a chais am sgwrs, y cyfan yn adlewyrchu'r dyhead i gadw cysylltiad, ac i gynnal a pharhau perthynas. Bellach dwi wedi gwneud penderfyniad: mae yna bobl y dylwn gysylltu â nhw a dyma'r cyfle i wneud hynny.

Beth mae hyn i gyd yn ei ddweud wrthym ni? Yn fwy na dim, y rheidrwydd i fodoli mewn perthynas ag unigolion eraill, yn deulu ac yn gymuned. Y mae'n rhaid wrth berthynas ag eraill, nid yn unig i gynnal y corff ond yn fwy efallai yng nghyd-destun ein hanghenion mewnol, emosiynol, ysbrydol a chyda hynny y ddealltwriaeth o werth bywydau

eraill. Mae'r cyfnod yma yn gyfnod pryd y mae rhywun yn gwerthfawrogi bywydau eraill; galwad ffôn ac e-bost, gair o ymholiad, arwyddion o ofal, cymwynasau di-rif a'r cyfan yn dangos cymdeithas ar ei gorau. Fy ngobaith yw y bydd hyn oll yn parhau ac y bydd y cyfnod hwn yn gyfnod fydd yn agor ein llygaid o'r newydd i'r ddealltwriaeth o gymuned.

Ond mae'n gyfnod hefyd lle mae rhywun yn gweld gwerth eglwys a bod yn rhan o eglwys, ac mae hynny'n dod â ni at graidd y ddealltwriaeth o Gristnogaeth. Mae'n golygu sôn am Dduw yn nhermau datguddiad a bywyd yn nhermau cymod. Yn y modd hwnnw y mae rhywun yn gweld o ddifrif ac yn diolch am ein gilydd yng ngoleuni cariad Duw sy'n ein cymell i barchu ein gilydd ac i ofalu am ein gilydd. Yng nghanol y daioni yna sy'n amlygu ei hun y dyddiau hyn, caiff loan y gair olaf:

'Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; os ydym yn caru ein gilydd, y mae Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni.'

Pob bendith a chymerwch ofal.

Eifion



Llun: Amelia Davies

Cyflwynwn fel eglwys ein llongyfarchiadau cynhesaf i Eifion ac Alwen sydd newydd ddathlu eu pen blwydd priodas Arian ar 29 Ebrill.

Perthyn digidol

Mae'r rhifyn hwn yn cael ei baratoi ar ffurf ddigidol oherwydd y cyfyngiadau a osodir arnom yn sgil y Corona-feirws bondigrybwyll ond fe wnawn yn siŵr fod copi caled yn cael ei bostio i bob aelod sydd heb gysylltiad â'r rhyngwrwd. Am resymau ymarferol felly mae'r cynnwys yn fyrrach nag arfer. Rydym yn gwneud ein gorau i gadw mewn cysylltiad cyson â'n holl aelodau a'n cyfeillion drwy e-bost a ffôn. Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel a chofiwch gysylltu ag Eifion neu'r blaenoriaid a'r ymwelwyr ardal os bydd angen unrhyw beth arnoch.

Dyma restr ddethol o wasanaethau sydd ar gael ar wahanol gyfryngau ynghyd â rhai ffynonellau eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

- Myfyrdod ar gyfer Capel y Morfa bob bore Sul am 10.00 o'r gloch ar Facebook – Capel y Morfa Aberystwyth
- Ysgol Sul – gwersi Meithrin y Morfa dan ofal Catherine
- Cofiwch fod S4C yn darlledu oedfa'r bore ar y teledu, bob bore Sul am 11.00
- Mae 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' ar y teledu cyn hynny am 10.30
- Mae Oedfa'r Bore yn cael ei ddarlledu am 12.00 o'r gloch ar Radio Cymru ar foreau Sul
- Mae Bwrw Golwg ar Radio Cymru dan arweiniad John Roberts yn dilyn am 12.30 (amser newydd) ar foreau Sul
- Mae'r Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfeirlyfr o adnoddau i eglwysi i'w helpu i ddarparu ar gyfer eu haelodau. Gweler <https://www.ysgolsul.com/?pageid=6474>
- Mae gwasanaethau a myfyrdodau ar gael ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru dan y pennawd 'Hafan' – <https://www.ebcpcw.cymru/cy/>
- Bydd *Y Goleuad* yn cael ei gyhoeddi ar y we yn unig dros gyfnod yr argyfwng. Bydd yn ymddangos ar ddydd Mawrth ac ni fydd yn cael ei argraffu a'i ddanfôn drwy'r post. Gweler <https://www.ebcpcw.cymru/cy/>

Newyddion

Anfon cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at bawb sydd yn eu cartrefi eu hunain a'r rhai sy'n derbyn gofal mewn cartrefi preswyl. Ein gweddi yw bod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Edrychwn ymlaen at yr amser pan fyddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Yr Ysgol Sul

Er nad yw'n bosib i'r Ysgol Sul gyfarfod yng Nghapel y Morfa, mae'r Ysgol Sul yn weithredol trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae Eifion yn cadw cysylltiad rheolaidd â'r rhieni trwy e-bost; felly hefyd Meleri Macdonald, yr ysgrifennydd, ar ran yr athrawon, ac mae hithau'n anfon tasgau dewisol ar lein. Mae grŵp o'r gogledd wedi paratoi pecynnau Ysgol Sul ar lein sydd yn cynnwys amrywiaeth o dasgau diddorol ar themâu'r Pasg sy'n addas ar gyfer pob oed: Sul y Palmwydd, y Croeshoeliad, yr Atgyfodiad a'r Bywyd Newydd.

Meithrin y Morfa

Bob bore Sul mae Catherine yn cyflwyno gwers ar Facebook sydd yn cynnwys stori, cân gyda chyfle i ymuno gydag offeryn (e.e. maracas neu dambwrîn) a gweithgaredd crefft. Dyma enghraifft a gyflwynwyd ddydd Sul yn dilyn y Pasg: cyflwynwyd yr hanes am Iesu'n ymddangos i Cleopas a Mrs Cleopas ar y ffordd i Emaus; cafwyd cyfle i ganu'r gân 'Nid yw Neb yn Neb' sydd yn Rhaglen y Gymanfa, ac yna o dan gyfarwyddyd Catherine aeth y plant ati i wneud sandalau fflip-fflop gan ysgrifennu'r geiriau 'Cerdded gyda Iesu' arnynt.

Daeth tua phymtheg o blant ar y sgrin i ddangos eu sandalau ac roedd pawb wedi mwynhau. Mae plant sy'n byw mewn lleoedd eraill ac yn ymweld â ni'n achlysurol yn ymuno â Meithrin y Morfa yn rheolaidd. Diolch, Catherine, am yr holl gynllunio a pharatoi manwl.

Yn ogystal â Meithrin y Morfa mae cymaint o rieni ac aelodau yn defnyddio Facebook fel cyfrwng i gadw cysylltiad ac i gyfathrebu. Mae'n fodd i gynnal y gymdeithas glòs a'r cyfeillgarwch mewn cyfnod anodd o ynsu.

Ieuentid

Mae Ysgol Sul yr ieuentid wedi dechrau cyfarfod ar y we bob bore Sul, am sgwrs a phaned (pawb yn gorfod gwneud ei baned ei hun nawr wrth gwrs!). Mae'n hyfryd cael awr fach gyda'n gilydd, yn trafod yr wythnos a aeth heibio ac yn rhoi her i'n gilydd ar gyfer y Sul canlynol.

Heddiw, 26 Ebrill, fe fu pawb yn sôn am yr hyn maen nhw'n ddiolchgar amdano'n arbennig yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Dyma rai ohonynt: 'Yr NHS; bod yn saff; cael popeth sydd ei angen o'n cwmpas; teulu; gallu cysylltu â phawb a'u gweld ar y we; byw yn agos at Mam-gu a Taid a'u gweld yn yr ardd; bod pobl yn gwrando ar y Llywodraeth ac yn aros adref; bod Aberystwyth heb ddiodef yn ddrwg o'r firws; trampolîn Newydd; tywydd braf; anifeiliaid anwes . . .'

Ac mae mor bwysig ein bod yn gwneud ymdrech i geisio diolch a gwerthfawrogi mewn cyfnod mor heriol. Diolch yn fawr i chi ieuentid Capel y Morfa!

Erthygl ddifyr

Mae erthygl ddifyr iawn gan un o'n haelodau, Mrs Mona Chambers, wedi'i chyhoeddi yn rhifyn Ebrill o *Ichthus*, Cylchgrawn Capel Berea Newydd, Bangor. Mae modd ei ddarllen drwy ddilyn y linc yma – <http://www.henaduriaetharfon.org/berea.html> a chwilio am *Ichthus*.

Ebeneser

Er nad yw'n bosib i ni gyfarfod i gyd-addoli ar hyn o bryd, yr ydym yn cofio'n gynnes iawn at ein haelodau a'n cyfeillion ar eu haelwydydd eu hunain a'r rhai sydd mewn cartrefi preswyl. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel o dan yr amgylchiadau presennol. Fel y clywn yn aml, daw eto haul ar fryn, ac edrychwn ymlaen at gyfarfod unwaith eto i addoli ar brynhawn Sul.

Golygyddion y mis hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Mehefin o PERTHYN at Gwerfyl (gwerfylvj@googlemail.com) neu Menai (menailwyd@googlemail.com) erbyn dydd Gwener, 22 Mai os gwelwch yn dda.

Llyfrau fydd ar gael yn fuan



Dyma ddau lyfr fydd yn sicr yn apelio at lawer ohonom. Mae'r ddau wedi'u hargraffu a byddant ar gael cyn gynted ag y bydd y siopau llyfrau'n ailagor.

Cerdded y Palmant Golau

Harri Parri

Gwasg y Bwthyn, Pris £10.00

Llyfr a ddisgrifir gan y cyhoeddwr fel 'llyfr lliw llawn sy'n gofnod difyr o fywyd a gwaith yr awdur fel gweinidog mewn tair ardal'.



Diwinyddiaeth Paul

John Tudno Williams

Gwasg Prifysgol Cymru, Pris £17.99

Yn ôl y cyhoeddwr, dyma 'gyfrol gynhwysfawr sy'n trafod holl syniadaeth athrawiaethol yr Apostol Paul, ac yn unigryw fel yr ymdriniaeth lwyraf eto yn y Gymraeg ar y maes hwn'.

Banc Bwyd Stordy'r Jiwbilî

Cofiwch fod y Banc Bwyd yn dal i fynd a phe byddai unrhyw un eisiau cyfrannu yn ystod y cyfnod hwn – gellir defnyddio'r bocsys yn yr archfarchnadoedd lleol (Morrisons, Tesco neu Co-op Penparcau) neu gellwch anfon cyfraniad ariannol drwy wneud sieciau'n daladwy i Eglwys St Anne gan nodi ar gefn y siec Jubilee Storehouse. Gellir ei anfon wedyn i Eglwys St Anne, Southgate, Penparcau, Aberystwyth SY23 1RY

Gweddi

**Galw ar Dduw i'n cynnal, ein
cysuro a'n hannog**



I'r rhai sydd yng nghanol ofn, Arglwydd,
yn ystod yr amser cythryblus yma,
rho inni eiriau i gysuro.
I'r rhai sy'n cael eu llethu gan ddychryn,
rho inni eiriau i dawelu meddyliau.
I'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn gallu ymdopi,
rho inni eiriau i gryfhau.
I'r rhai sy'n profi caledi,
rho inni eiriau i gefnogi.
I'r rhai sydd wedi eu hynysu ac yn unig,
rho inni eiriau i galonogi.
I'r rhai sy'n flinedig oherwydd y gofal y maent yn ei ddarparu
rho inni eiriau i gynnal.
I'r rhai sydd yn yr ysbyty yn dioddef o'r Coronafeirws
rho inni eiriau o anogaeth.
I'r rhai sydd wedi'u llethu gan alar,
rho inni eiriau i gysuro.
Mae cymaint yn friwedig, Arglwydd,
yn simsan,
ac rydan ni'n teimlo'n annigonol i'w helpu.
Ond, o leiaf, gallwn ddangos ein cariad a'n pryder.
Rho inni'r geiriau i'w dweud,
a'r galon i'w meddwl.
Amen

Nick Fawcett

Addasiad Cymraeg gan Ioan ac Owenna Hughes

Ffotomarathon gwahanol yn y cartref

Mae aelodau'r Morfa yn ddigon cyfarwydd â'r ffotomarathon flynyddol gaiff ei chynnal yn Morlan bob hydref. Wel, bu'r criw sy'n gyfrifol am y digwyddiad ffotograffig hwnnw wrthi'n gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol dros benwythnos y Pasg.

Yn wyneb y sefyllfa bresennol aethpwyd ati i gynnal ffotomarathon go unigryw – yr her oedd i dynnu pedwar llun ar bedair thema dros bedwar diwrnod, ond i wneud hynny wrth gwrs drwy gadw at y cyfyngiadau sydd mewn grym.

Gosodwyd y thema bob dydd am 10 y bore ac roedd angen i bawb uwchlwytho eu lluniau cyn 7 y noson honno gydag enillydd unigol bob dydd yn cael ei gyhoeddi y bore canlynol. Ar ddiwedd y pedwar diwrnod cyflwynwyd gwobr ar gyfer y set orau o bedwar llun.

Y themâu a osodwyd oedd, **Pren, Melyn, Rhif ac Adlewyrchiad** a derbyniwyd dros fil o luniau i gyd.

Bu nifer o Gapel y Morfa yn cymryd rhan a gellir darllen rhai o'u hargraffiadau isod – llongyfarchiadau iddynt i gyd ond yn enwedig Rhodri ap Dyfrig a enillodd un diwrnod am ei lun o dan y thema **Pren**.

Os hoffech weld rhagor o'r lluniau gellwch eu gweld ar sianeli cymdeithasol FfotoAber. Gobeithio y bydd yn dychwelyd i Morlan yn yr Hydref.



Thema: Pren Enillydd: Rhodri ap Dyfrig

Thema: Adlewyrchiad



Alis Mabbutt




Catrin Daniel




Elan Mabbutt



Amelia Davies




Illtud Daniel



Luned Daniel



Nia Daniel



Arwel Rocet Jones

Ymateb rhai fu'n cymryd rhan . . .

Rhaid cyfaddef 'mod i wedi rhoi ochenaid o ryddhad pan welais ar Twitter, fod FfotoAber am gynnal ffotomarathon dros benwythnos y Pasg. Gyda'r holl drefniadau am ymweliad y plantos o Southampton wedi mynd i'r gwellt, gwych oedd cael rhywbeth arall i ganolbwyntio arno yn ystod y cyfnod eithriadol o gythryblus hwn. Llwyddais i berswadio ffrindiau o bell i gymryd rhan hefyd, ac roedd yn bleser derbyn yr her ddyddiol.

Amelia Davies

'Gwych!' Dyna oedd barn ein teulu ni am #Ffotomarathonpasg. Roedd yn ffordd i blant ac oedolion fynd ati i gymryd rhan mewn gweithgaredd hwylus a diogel a'u gorfodi i feddwl 'y tu allan i'r bocs' am syniadau gwreiddiol a gwahanol. Cafwyd cryn gyffro bob p'nawn wrth aros i weld y meddylfryd y tu ol i'r gwahanol luniau ac eto yn y bore i weld y lluniau buddugol. Diolch o galon i drefnwyr FfotoAber am ddod ag ychydig o ddifyrrwch i ni mewn cyfnod anodd.

Elin Mabbutt

Dwi fel arfer yn cymryd rhan yn ffotomarathon Ffotoaber ac ro'n i'n falch iawn ei fod o'n ôl dros benwythnos y Pasg! Wnaeth y 4 ohonom fel teulu gymryd rhan – y tro cynta i ni wneud hynny dwi'n meddwl – a chael llawer o hwyl. Dreulion ni tua awr bob dydd yn edrych o gwmpas efo'n gilydd yn chwilio am ddelweddau diddorol. Mae digonedd ond i chi edrych o'r newydd!

Rhodri ap Dyfrig

Dyma'r tro cyntaf i ni fel teulu cyfan i gymryd rhan yn y ffotomarathon. Hwyl greadigol yn y tywydd braf lwyddodd i lenwi pedwar diwrnod o'r Gofid Mawr (er mai ras wyllt i ddewis a dethol a thynnu rhywbeth arall oedd hi tua amser te bob dydd). Fe lwyddodd pawb i gael eu pig i mewn rhywsut yn cynnwys Ffreda'r Crwban! Diolch FfotoAber.

Arwel Rocet Jones

*Pan roedd yn anodd gweld pen draw y COVID.
Canolbwyntio ar y funud.*

*O ddydd i ddydd y teulu i gyd.
Ynghanol gweithio o adre ac ysgol bwrdd cegin
Yn aros i drafod thema'r dydd.*

*Dal yr eiliad.
Gan edmygu lluniau ffrindiau.
Gweld ein gilydd yn wahanol.
Edrych o'r newydd ar yr hyn sydd o'n hamgylch, ac wrth law.
Nia, Illtud, Catrin a Luned Daniel*

Cyfleoedd i ddod at ein gilydd



Gweddi a Choffi – Bore Mawrth am 10.30

Cynhelir sesiwn gweddi a choffi ar fore Mawrth drwy gyfrwng y dechnoleg.

Ffydd a Phaned – Pnawn Gwener am 2.15

Cyfle i sgwrsio a thrafod pynciau'r dydd dros banded.

Ar gyfer y cyfarfodydd uchod – cysyllter ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com i gael manylion ymuno.